Gweinyddiaeth
Cyfiawnder




# Mynd i’r Llys fel Diffynnydd:
## Geirfa’r Llys

# Mynd i'r Llys fel Diffynnydd: Geirfa'r Llys

**Ar y tudalennau nesaf ceir rhestr o rai o'r geiriau y gellir eu clywed mewn llys troseddol. Bydd y daflen hon yn eich helpu i ddeall ystyr y geiriau hyn.**

---




Mae gan bawb yr hawl i ddeall beth sy'n digwydd yn y llys.

Gall yr iaith a ddefnyddir yn y llys beri dryswch.

Nid yw'r geiriau bob amser yn eiriau y byddwch yn eu clywed bob dydd.

Mae llawer o'r geiriau hyn yn dermau cyfreithiol.

---



Os nad ydych yn gallu siarad Saesneg yn dda iawn, neu os oes gennych anabledd sy'n ei gwneud hi'n anodd ichi ddeall pethau, dylech roi gwybod i'r llys cyn gynted ag y bo modd.

Gallant drefnu cyfieithydd, neu gymorth arall i'ch helpu i ddeall.

---

| | |
|---|---|
| **Achwynydd** | Yr achwynydd yw'r dioddefwr honedig yn yr achos. |
| **Yr Amddiffyniad** | Y cyfreithwyr sy'n helpu'r diffynnydd gyda'i achos NEU y rhesymau pam nad ydych yn euog. |
| **Anfon ar gyfer Treial** | Gall ynadon gyfeirio eich achos i Lys y Goron ar gyfer cynnal treial. Gall hyn ddigwydd os bydd yr ynadon yn ystyried bod eich achos yn rhy ddifrifol ar gyfer y llys ynadon. |
| **Bargyfreithiwr** | Cyfreithwyr sy'n arbenigo mewn achosion llys yw bargyfreithiwr. Os oes gennych gyfreithiwr, bydd yn 'cyfarwyddo' bargyfreithiwr i roi cyngor ichi a'ch cynrychioli yn y llys. Bydd y bargyfreithiwr yn eich helpu gyda'ch achos. |
| **Barnwr Rhanbarth** | Mae Barnwyr Rhanbarth yn gwrando achosion mewn llysoedd ynadon. Maent wedi'u hyfforddi yn y gyfraith a gallant wrando eich achos yn lle ynadon. |
| **Cael rhywun yn ddieuog** | Os ceir eich bod yn ddieuog o drosedd, ni fydd gennych gofnod troseddol. |
| **Cenedligrwydd** | Y wlad neu'r gwledydd lle rydych yn ddinesydd cyfreithlon. Os oes gennych basbort, dyma'r wlad lle cyhoeddwyd eich pasbort. |
| **Cyfreithiwr** | Os oes gennych gyfreithiwr, bydd yn eich cynrychioli yn y llys neu'n gwneud trefniadau i gyfreithiwr arall eich cynrychioli. |
| **Cyhuddiad** | Y drosedd neu'r troseddau y'ch cyhuddwyd ohonynt. |
| **Cymorth Cyfreithiol** | Gallwch fod yn gymwys i gael cyngor cyfreithiol am ddim neu gael cymorth ariannol gyda'ch ffioedd cyfreithiol. Gelwir hyn yn gymorth cyfreithiol. Gall cyfreithiwr roi cyngor ichi ynglŷn â gwneud cais am gymorth cyfreithiol. |

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Cyfreithiol** | Mae cynghorwyr cyfreithiol yn gweithio yn y llys ynadon. Maent yn gyfreithwyr sy'n rhoi cyngor i ynadon ar y gyfraith. Byddant yn helpu i esbonio'r broses llys ichi yn ystod gwrandawiad neu dreial. |
| **Dedfryd** | Y ddedfryd yw'r gosb y byddwch yn ei chael os byddwch yn pledio'n euog neu'n cael eich dyfarnu'n euog. Er enghraifft, gall eich cosb fod yn ddirwy, yn ddedfryd gymunedol neu'n ddedfryd o garchar. |
| **Dedfryd Gymunedol** | Os byddwch yn cael dedfryd ohiriedig, ni fyddwch yn mynd i'r carchar. Efallai y dywedir wrthych am fynd ar gyrsiau a drefnir gan y Gwasanaeth Prawf, gwneud gwaith di-dâl, neu aros yn y tŷ ar adegau penodol. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gellir eich cosbi. |
| **Dedfryd Ohiriedig** | Os byddwch yn cael dedfryd ohiriedig, ni fydd rhaid ichi fynd i'r carchar, oni bai eich bod yn cyflawni trosedd arall. Os byddwch yn cyflawni trosedd newydd, gall y llys benderfynu eich anfon i'r carchar.<br><br>Os byddwch yn cael dedfryd ohiriedig efallai y bydd rhaid ichi wneud gwaith di-dâl, neu fynd i gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddog prawf. Gelwir y rhain yn 'amodau'. Os na fyddwch yn gwneud yr hyn y gofynnir ichi wneud, gellir eich cosbi a'ch anfon i'r carchar. |
| **Diffynnydd** | Os ydych wedi'ch cyhuddo o drosedd ac wedi cael eich cyfarwyddo i fynd i'r llys, fe'ch gelwir yn ddiffynnydd. |
| **Ditiad** | Mae'r ddogfen hon yn rhestru'r drosedd neu'r troseddau y'ch cyhuddwyd ohonynt. Yn Llys y Goron yn unig y defnyddir y term hwn. |
| **Dyfarnu'n euog** | Os cewch eich dyfarnu'n euog o drosedd, rydych naill ai wedi pledio'n euog neu wedi'ch cael yn euog yn dilyn treial. Bydd gennych euogfarn a chofnod troseddol. |

| | |
|---|---|
| **Yr Erlyniad** | Y bobl sy'n dweud eich bod wedi cyflawni'r drosedd; Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r heddlu fel arfer. Bydd cyfreithiwr yn eu cynrychioli yn y llys. |
| **Gordal Dioddefwr** | Os byddwch yn cael eich dyfarnu'n euog yna bydd rhaid ichi dalu gordal dioddefwr. Bydd rhaid ichi dalu'r gordal hyd yn oed os nad oes dioddefwr ar gyfer y drosedd (e.e. osgoi talu trwydded deledu). Mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu dioddefwyr troseddau a'u teuluoedd. |
| **Gwasanaethau Cyswllt a Chyfeirio** | Gallant helpu'r llys i wneud penderfyniadau ynghylch diffynyddion sydd ag anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl. |
| **Gwasanaeth Prawf** | Yn y llysoedd, mae'r gwasanaeth prawf yn rhoi cyngor i farnwyr neu ynadon ynglŷn â'r ddedfryd y dylech ei chael os ceir eich bod yn euog. Byddant yn siarad gyda chi ac yn paratoi adroddiad. Byddant eisiau deall pam eich bod wedi cyflawni'r drosedd a gwybod mwy am eich cefndir a'ch hanes.<br><br>Gallant gynghori'r llys eich bod angen cymorth gyda phroblem yng nghyswllt cyffuriau neu alcohol, neu efallai y byddant yn dweud eich bod yn debygol o gyflawni trosedd arall. |
| **Gwrandawiad** | Digwyddiad lle bydd yr erlyniad, yr amddiffyniad, a'r barnwr / ynad yn cyfarfod mewn llys. Mewn gwrandawiad, gellir gwneud penderfyniad ynglŷn â'r angen am dreial neu ynghylch pa ddedfryd y dylech ei chael. Fel arfer maent yn agored i'r cyhoedd. |

| | |
|---|---|
| **Mechnïaeth** | Mae hyn yn golygu na fydd rhaid ichi fynd i'r carchar cyn eich treial. Bydd rhaid ichi fynd i'r llys pan ofynnir ichi wneud hynny. Os na fyddwch yn mynd, gellir eich arestio.<br><br>Efallai y bydd yna 'amodau' yn gysylltiedig â'ch mechnïaeth. Er enghraifft, efallai na fyddwch yn cael mynd i gyfeiriad penodol, neu na fyddwch yn cael mynd allan ar ôl rhyw amser.<br><br>Rhoir gwybod ichi os bydd unrhyw amodau yn gysylltiedig â'ch mechnïaeth. Os byddwch yn anwybyddu'r amodau hyn, gellir eich arestio. Efallai y byddwch yn cael eich cadw yn y carchar tra byddwch yn aros am eich treial neu eich dedfryd. |
| **Ple** | Pan fyddwch yn dweud a wnaethoch chi gyflawni'r drosedd ai peidio. Os ydych yn cytuno eich bod wedi cyflawni'r drosedd, byddwch yn dweud eich bod yn 'euog.' Os nad ydych yn cytuno, byddwch yn dweud eich bod yn 'ddieuog.' |
| **Remandio yn y Ddalfa** | Mae hyn yn golygu y byddwch yn gorfod mynd i'r carchar ac aros yno tan eich treial neu eich gwrandawiad nesaf. |
| **Rheithfarn** | Dyma benderfyniad yr ynadon (yn y llys ynadon) neu'r rheithgor (yn Llys y Goron) wrth iddynt eich cael naill ai'n euog ynteu'n ddieuog. |
| **Rheithgor** | Mae rheithgor yn cynnwys 12 o bobl sy'n cael eu dewis ar hap o'r gymuned. Maent yn eistedd mewn achosion yn Llys y Goron ac yn penderfynu a yw'r diffynnydd yn euog ai peidio. |
| **Traddodi ar gyfer Dedfryd** | Os bydd yr ynadon o'r farn bod y drosedd yn galw am gosb lymach, gallant eich cyfeirio i Lys y Goron i gael eich dedfrydu. |
| **Trosedd** | Mae trosedd yn weithred o dorri'r gyfraith. |

| | |
|---|---|
| **Trosedd neillfordd** | Os gall y drosedd y'ch cyhuddwyd ohono gael ei wrando mewn llys ynadon neu mewn Llys y Goron, bydd y llys yn penderfynu ym mha lys y gwrandewir yr achos. Mae gennych yr hawl i wneud cais i'ch achos gael ei wrando yn Llys y Goron. Dylech siarad gyda chyfreithiwr ynghylch hyn. |
| **Tystiolaeth** | Defnyddir tystiolaeth mewn achos. Gall tystion roi tystiolaeth trwy ddatganiadau ysgrifenedig, trwy gyswllt fideo neu yn y llys ei hun. Weithiau bydd yna dystiolaeth fforensig (fel DNA, gwaed), neu dystiolaeth ffisegol (ffilm CCTV), neu dystiolaeth feddygol. |
| **Tywysydd** | Mae tywysydd yn gweithio i'r llys. Fel arfer mae gan Lysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron dywyswyr i helpu i sicrhau bod y llys yn rhedeg yn esmwyth. |
| **Ynad** | Gall eich achos gael ei wrando gan ddau neu dri ynad mewn llys ynadon. Nid yw ynadon wedi'u hyfforddi yn y gyfraith. Fel arfer maent yn bobl sy'n byw yn y gymuned leol. Maent yn cael eu cefnogi gan gynghorydd cyfreithiol sydd wedi'i hyfforddi yn y gyfraith. |